**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 15-02(p6)**

**Dyddiad:** **31 Hydref 2002**
**Amser:** **09:00 hyd 12:30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **Adroddiad ar Hynt *Cymru'n Ennill***

## Pwrpas

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi adroddiad ar hynt y gwaith o weithredu *Cymru'n Ennill.*

## Y cefndir

2. Ar ôl cyfnod o ymgynghori eang, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru'n Ennill* ar 28 Ionawr 2002. Cyhoeddwyd y ddogfen ategol *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth* ar 27 Chwefror 2002. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar:

- gynyddu gallu pob rhan o'r economi i arloesi, defnyddio gwybodaeth a chynnal gwaith ymchwil a datblygu;
- adeiladu ar ein cryfderau sylweddol ym maes gweithgynhyrchu;
- gynyddu nifer y swyddi sydd mewn gwasanaethau ariannol a gwasanaethau busnes;
- helpu mwy o bobl i gael swyddi, er mwyn gostwng lefelau anweithgarwch economaidd;
- wasgaru cyfoeth ar draws Cymru, gan ddefnyddio'r holl fesurau sydd ar gael inni, gan gynnwys y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Cymorth Rhanbarthol Dewisol, Awdurdod Datblygu Cymru, adnoddau Bwrdd Croeso Cymru ac ELWa, a'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.

3. Fel yn achos pob prosiect, mae'r modd y caiff ei weithredu yn hollbwysig. Mae Grwp Prosiect wedi'i sefydlu i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r strategaeth. Ymhlith yr aelodau mae cynrychiolwyr o blith adrannau Llywodraeth y Cynulliad, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Job Centre Plus.
4. Hefyd, mae camau wedi'u cymryd i gryfhau'r berthynas ar lefel strategol ac o ran gweithredu polisïau rhwng y gwaith a argymhellir yn *Cymru'n Ennill* a'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.
5. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol llawn ar gynnydd yn gynnar yn haf 2003. Bydd hwn yn cynnwys adolygiad manwl o economi a phatrymau economaidd Cymru, dadansoddiad o gynnydd o'i gymharu â thargedau a diweddaru'r cynllun gweithredu i gymryd i ystyriaeth gyfleoedd a datblygiadau newydd.
6. Mae'r papur hwn yn rhoi adroddiad hanner blwyddyn ar gynnydd. Yn Atodiad 1 ceir gwybodaeth fanylach am gynnydd ym mhob maes.

**Targedau**

7. Yn *Cymru'n Ennill* pennwyd nifer o dargedau i'w cyflawni erbyn 2010 ac roedd y ddogfen yn cadarnhau y byddai'r rhain yn cael eu mesur yn erbyn gwaelodlin 2001. Mae'r gwaelodlinau i gyd wedi'u sefydlu ac fe'u dangosir isod. Byddwn yn dangos perfformiad o'i gymharu â'r targedau hyn yn yr Adroddiad Blynyddol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar newidiadau i'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (a ddefnyddir gan *Cymru'n Ennill* i fesur llwyddiant yn gyffredinol), gan bwysleisio ar yr un pryd nad oes modd pennu amserlen gwbl bendant ar gyfer cyflawni mesurau ar y lefel hon.

| Disgrifiad o'r targed | Targed erbyn 2010 | Gwaelodlin (2001 oni nodir yn wahanol) |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn cyflogaeth net o | +135,000 | 1,242,000 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth net yn y gwasanaethau busnes ac ariannol | +20,000 | 123,000 |
| Cynyddu'r stoc o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW fesul 10,000 o bobl dros 16 oed | Codi i lefel gyfartalog y DU | 316 (90% o'r DU) |
| Cynyddu gwariant ar ymchwil a datblygu busnes fel % o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth | >1% | 0.7% (1999) |
| Twf yng ngwerth allforion | Anelu at yr un twf ag yn y DU dros y cyfnod | Cymru: £6,683m<br>DU: £161,151m |
| Cynyddu cyfran y busnesau yng Nghymru sy'n defnyddio e-fasnach | At gyfartaledd y DU | 8.01%(49% o'r DU) (2000) |
| Incwm teuluol defnyddiadwy i godi | 95% o gyfartaledd y DU | 87.5% (1999) |
| Cynyddu'r gwariant ar dwristiaeth yng Nghymru | 6% y flwyddyn, ar gyfartaledd, dros y cyfnod | £1,912.3m |
| Lleihau'r gyfran o oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau | 1 ym mhob 10<br>(h.y. <10%) | 20% |
| Cynyddu'r gyfran o oedolion o oedran gweithio â chymwysterau lefel 4 i: | dros 3 ym mhob 10<br>(h.y. >30%) | 22% |

8. Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu mesurau ategol o ran perfformiad economaidd a lles; eto, adroddir ar hyn yn yr Adroddiad Blynyddol.

**Ymchwil**

9. Un o'r addewidion pwysig yn *Cymru'n Ennill* yw gwella'n dealltwriaeth o faterion economaidd sy'n effeithio ar Gymru. Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Banel

Ymgynghori ar Ymchwil Economaidd (ERAP) ym mis Ebrill 2002. Ei rôl yw:

- Cynghori Llywodraeth y Cynulliad ar raglen ymchwil, monitro a gwerthuso economaidd.
- Cynghori Llywodraeth y Cynulliad a Phwyllgorau priodol y Cynulliad ar ganlyniadau'r rhaglen hon.
- Hybu cydweithrediad ym maes ymchwil economaidd a rhannu deallusrwydd rhwng Llywodraeth y Cynulliad, ei phrif asiantaethau a phartneriaid eraill.
- Cynghori ar ledaenu canfyddiadau gwaith ymchwil; a
- Cynghori ar y ffordd orau o ddatblygu gallu ac arbenigedd sefydliadau yng Nghymru i gyfrannu i'r agenda ymchwil hon.

10. Mae'r Panel wedi argymell rhaglen ymchwil ar gyfer 2002-03 ac mae hon bellach ar y gweill; dangosir y prif astudiaethau isod. Bydd yn ystyried blaenoriaethau ar gyfer rhaglen dreigl dair blynedd o waith ymchwil yn yr hydref.

**Rhaglen Ymchwil Economaidd 2002-03**

- Nodi'r rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol.
- Mesur incwm cartrefi amaethyddol.
- Datblygu cronfa ddata o gwmnïau Cymru.
- Cynyddu'r defnydd o fodelau darogan economaidd rhanbarthol yng Nghymru.
- Modelu amgylcheddol - economaidd rhanbarthol.
- Ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer trefi deinamig llai.
- Effeithiau gwella sgiliau sylfaenol oedolion.
- Nodi'r rhwystrau i weithgarwch economaidd.
- Cymharu effeithiolrwydd gweithgareddau creu swyddi o ran cost.
- Effeithiau economaidd gwella'r isadeiledd trafnidiaeth.

**Prif Lwyddiannau**

11. Mae prif lwyddiannau *‘Cymru'n Ennill’* mewn perthynas â phob blaenoriaeth wedi'u rhestru isod. Ceir y manylion llawn yn Atodiad 1.

**Hybu Arloesedd**

- Mae cynllun datblygu strategol wedi'i ddatblygu ar gyfer y rhwydwaith o Ganolfannau Technium ledled Cymru. Mae rheolwr cenedlaethol y WDA wedi'i benodi ar gyfer y Canolfannau Technium.
- Mae'r Technium OpTIC gwerth £14.7m wedi'i lansio yn Llanelwy.
- Mae grant o £4.44m wedi'i gymeradwyo dan Amcan 1 tuag at y swm o £10.6m ar gyfer Prifysgol Cymru, Abertawe, i greu Technium Digidol. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo.

- Mae'r gwaith o adeiladu'r uned Technium II yn Abertawe wedi cychwyn.
- Mae'r gwaith o adeiladu'r Biotechnium yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Llanarthne, ger Caerfyrddin, wedi dod i ben.
- Mae'r cynigion ar gyfer y Technium Meddalwedd ym Mharc Menai, a Chanolfannau Technium Rhanbarthol yn Aberystwyth a'r Cymoedd yn dod yn eu blaen yn dda.
- Mae'r gwaith o gynllunio'r Ganolfan Masnacheiddio Technoleg wedi'i gwblhau, ac mae cynllun busnes llawn wedi'i ddrafftio. Caiff staff arwain eu penodi ym mis Mawrth 2003, a bydd gwaith yn dechrau o hynny ymlaen.
- Cytunwyd ar £1.1m o arian Amcan 1 i ddatblygu'r Ganolfan Arloesedd Busnes yng Nglynebwy. Bydd y cyfleuster yn creu 220 o swyddi ac yn ysgogi twf cwmniau eraill yn ei sgil.
- Mae UWIC wedi ennill y contract ar gyfer y Gwasanaeth Ymgynghorol Gweithgynhyrchu ac mae Prifysgol Caerdydd wedi ennill y contract ar gyfer y Ganolfan Ranbarthol dros Ragoriaeth ym maes Gweithgynhyrchu. Mae'r gwaith o sefydlu a recriwtio yn mynd rhagddo ac mae achlysur lansio ar y cyd wedi'i drefnu ar gyfer Tachwedd 2002.
- Mae'r prosiect gwerth £2.89m ar gyfer Canolfan Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cymoedd (VITCC) yn Nhredegar yn mynd rhagddo.
- Bydd Cynllun Gweithredu Arloesedd yn cael ei gyhoeddi i ddibenion ymgynghori ym mis Tachwedd 2002, gan ddwyn ynghyd yr elfennau hyn a'r strwythur cliriach o ran gwaith ac arian i gefnogi arloesedd, a gweithgareddau eraill i hybu syniadau arloesol ym myd busnes.
- Trosglwyddwyd SMART i'r WDA ar 1 Ebrill 2002; mae'r gwaith gwerthuso yn mynd rhagddo, i'w gwblhau erbyn Mawrth 2003.
- Mae'r Gronfa Arloesi Capasiti Ymchwil (gwerth £8.7m) wedi'i lansio a'r Gronfa Buddsoddiadau Ymchwil Wyddonol wedi'i chryfhau (£35.5m).
- SUPERMAN, prosiect Amcan 1, grant o £5.3m i Brifysgol Cymru, Caerdydd, i greu diwylliant o arloesedd technolegol o fewn cwmnïau i'w helpu i gystadlu ar lefel fyd-eang.
- Mae'r WDA wedi helpu bron i 2,000 o fusnesau drwy ei Raglenni Arloesi a Thechnoleg.

**Hybu Entrepreneuriaeth**

- Yn dilyn yr achlysur lansio cychwynnol yn 2000, mae'r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ar waith yn llawn erbyn hyn. Mae £15.32m o arian Amcan 1 wedi'i ymrwymo.
- Lansiwyd y Grant Buddsoddi gan y Cynulliad yn swyddogol yn Ebrill 2002. Cofrestrodd 880 ddiddordeb; daeth 250 cais llawn i law; a gwnaed 107 o gynigion (£3.5 m wedi'i ymrwymo). Disgwylir i'r prosiectau hyn ddenu buddsoddiad o dros £16m o'r sector preifat a chreu dros 200 o swyddi.
- Mae'r rhaglen *Potentia* wedi cynorthwyo 1,000 o bobl mewn ardaloedd difreintiedig ac mae 250 o'r rheini wedi mynd i mewn i fyd busnes.
- Mae'r Prosiect Dynamo 3 blynedd, gwerth £10m, bellach wedi'i lansio yn ysgolion Cymru.
- Mae 70 o entrepreneuriaid wedi'u penodi i hybu entrepreneuriaeth mewn ysgolion.

Llwyddodd tim o entrepreneuriaid o Ysgol Tregib, Sir Gaerfyrddin i ennill gwobr y DU am Fenter Busnes yr Ifanc ym mis Gorffennaf 2002 a hefyd y drydedd wobr yn y rowndiau terfynol Ewropeaidd.

- Rhoddwyd 188 o ysgoloriaethau entrepreneuriaeth i ddarparu cymorth ariannol i raddedigion newydd sy'n sefydlu cwmnïau.
- Lansiwyd ymgyrch hysbysebu dros yr haf i godi ymwybyddiaeth am yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i bobl ar draws Cymru i ddechrau eu busnes eu hunain.
- Cronfa Ecsploetio Gwybodaeth gwerth £10m ar gyfer 2002-03 i gefnogi 78 o brosiectau cydweithredol rhwng cwmnïau a sefydliadau. £4.5m o gymorth Amcan 1 tuag at y prosiect hwn.
- Cafwyd arian gan yr Adran Iechyd tuag ar 'barc geneteg rhithwir' yng Nghymru. Mae staff yn cael eu recriwtio ar hyn o bryd.
- Llwyddwyd i sicrhau £45m o arian Amcan 1 tuag at Gyllid Cymru.

**Gwneud Cymru yn Wlad sy'n Dysgu**

- Mae'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn mynd rhagddo. Ymhlith y llwyddiannau cynnar mae:
- Ail Arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru wedi'i gomisiynu i adolygu anghenion sgiliau unigolion a chyflogwyr yng Nghymru yn y dyfodol.
- 8 Cyngor Sgiliau Sector wedi'u trwyddedu neu'n cael eu datblygu. Mae Grwp Cyflogwyr Newydd wedi'i sefydlu i gynghori Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru a Chronfa Datblygu Sgiliau wedi'i datblygu i fynd i'r afael â'r diffyg mewn sgiliau ledled Cymru.
- Ymgymerwyd ag ymgyrch Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, ac effaith fawr wedi'i chofnodi. Cymerodd dros 12,000 o oedolion a phlant ran mewn rhaglenni llythrennedd a rhifedd teuluol yn ystod 2001-02 a hyfforddwyd 1000 o athrawon mewn cwricwla llythrennedd a rhifedd newydd.
- Ysgogwyd gwaith gan Dasglu'r Fargen Newydd yng Nghymru i wella'r Fargen Newydd, gan gynnwys cyswllt cryfach â sectorau.
- Lansiwyd y prosiect Gweithwyr sy'n Dysgu yn Llanelli, er mwyn asesu effaith darparu dysgu am ddim i weithwyr cyflogedig.
- Yn Ebrill 2002, cyhoeddwyd cynlluniau peilot y Fagloriaeth Gymreig mewn 19 canolfan.
- Gwnaed nifer o welliannau i raglenni dysgu, gan gynnwys dileu rhwystrau oedran a chyflwynwyd Cyfrifon Dysgu Cwmni.
- Ehangu Cronfa Dysgu Undeb Cymru (WULF).
- Ym Mawrth 2002, lansiwyd strategaeth y Cynulliad ar gyfer Addysg Uwch 'Cyrraedd yn Uwch'.

**Hyrwyddo Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu**

- Lansiwyd Band Eang Cymru, gwerth £100m, ym mis Gorffennaf 2002 i ddod â'r dechnoleg ddiweddaraf i 310,000 o gartrefi ychwanegol a 67,000 o fusnesau ychwanegol.

- Mae'r cynlluniau Cymhorthdal Lloeren DSL a ‘Try Before You Buy’ ar waith.

- Mae'r cam peilot ‘Cyfle Cymru’ a ariannwyd gan Amcan 1 wedi dod i ben a lansiwyd y gwasanaeth porth allweddol ym mis Ebrill 2002. Mae 14 partner yn awr yn cyflwyno adolygiadau e-fasnach i dros 1,200 o fentrau bach a chanolig.
- Cyhoeddwyd £0.75m o arian gan y Cynulliad ar gyfer y Rhwydwaith Canolfan Cefnogi TGCh Cymru Gyfan dros y tair blynedd o 2002. Mae'r gwaith o reoli'r rhwydwaith yn cael ei adolygu yng ngoleuni Adolygiad Cymorth Busnes y WDA.
- Mae @TEB, Canolfan achredu *Technology Means Business* (TMB) yng Nghymru wedi llwyddo i gael arian Amcan Un. Mae hon yn darparu ffioedd achredu â chymhorthdal ar gyfer cynghorwyr yn yr ardaloedd Amcan Un ac mae'n ariannu datblygiad rhaglen hyfforddi TMB arlein gyda chymorth tiwtoriaid. Mae @TEB yn parhau i hyrwyddo manteision achredu TGCh ac mae'n denu cynghorwyr drwy Gymru gyfan.
- Ymgeisiodd dros 200 o fentrau bach a chanolig am Wobrau E-fasnach arlein am fusnes y DU. Roedd safon sawl cais yn uchel, sy'n dangos pa mor barod yw mentrau bach a chanolig yng Nghymru i ddefnyddio TGCh er mwyn gwneud eu busnes yn fwy effeithlon.
- Mae arlein ar gyfer busnes y DU yn cynorthwyo Siambr Fasnach Caerdydd i redeg Clwb e-Funses. Dyma un o'r clwbiau mwyaf llwyddiannus ac mae'n denu dros 80 o fentrau bach a chanolig, sy'n dangos bod busnesau bach a chanolig o'r farn bod defnyddio TGCh yn effeithiol yn eu busnesau yn bwysig iawn.
- Cynorthwyodd 550 o gwmnïau ar raglenni cymorth e-fusnes y WDA.

**Cynorthwyo Busnesau**

- Trefniadau Cyswllt Busnes diwygiedig yn eu lle. Cynorthwywyd dros 3,000 o fusnesau.
- Mae'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn parhau:
- Amcan 1 - 632 prosiect yn derbyn dros £359m.
- Amcan 2 - 58 prosiect yn derbyn dros £8.5m.
- Amcan 3 - 288 prosiect yn derbyn dros £29.6m.

Yn gynwysedig yn y ffigurau hyn mae grantiau Amcan 1 o:

- £6.3m i Fwrdd Croeso Cymru tuag at brosiect yn costio £12.6m i ddarparu cymorth busnes wedi'i gydlynu (gan gynnwys cyllid) ar gyfer y diwydiant twristiaeth.
- £9.225m i Gronfa Ecwiti Cyllid Cymru i ddarparu ecwiti (na fyddai ar gael, fel arall) i fentrau bach a chanolig.
- £11.13m ar gyfer Benthyciadau Cyllid Cymru a Chronfa Mezzanine i ddarparu benthyciadau fforddiadwy/cyllid mezzanine i 1000 o'r mentrau bach a chanolig sy'n bodoli ar hyn o bryd.
- Mae Prifysgol Caerdydd wrthi yn dadansoddi clystyrau twf ac mae astudiaeth biowyddoniaethau bwysig wedi'i chomisiynu.
- Rhaglen o safloedd arbenigol gan gynnwys Technium ac unedau deoryddion wedi'i

llunio.
- Sefydlwyd Grwp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn hyrwyddo Partneriaethau Gweithle.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Gwarchod Plant ym mis Mai 2002.
- Rhoddodd y WDA grant i'r Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol i fentora busnesau gwarchod plant.
- 18 o brosiectau wedi'u cefnogi gan arian o'r Gronfa Her Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith erbyn diwedd 2002.

**Pennu Cyfeiriad Newydd**

- Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru ym mis Ebrill 2002.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Wastraff Cymru ym mis Mehefin 2002.
- Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu drafft Busnes Cynaliadwy Cymru er mwyn ymgynghori arno yn gynnar ym mis Hydref 2002.
- Lansiwyd pecyn grant newydd i annog perchnogion coetir cynhenid i ddod â'u coetir dan reolaeth.
- Gweithio ar gompact gyda CLlLC i hybu cydweithrediad ar bolisïau Datblygu Cynaliadwy, i'w lansio.
- Lansiwyd y Cynllun Adfywio i gysylltu twristiaeth a mwynhad o gefn gwlad ym mis Ebrill 2002.
- Grant Amcan 1 gwerth £2.5m i Brifysgol Cymru, Caerdydd, i greu Parc Ymchwil Geo-amgylcheddol ar dir sydd wedi'i adfer yn yr ardal Amcan1 i gynnal profion geo-amgylcheddol. Y potensial i greu mentrau bach a chanolig technoleg uchel ym maes yr amgylchedd/cynaliadwyedd.

**Ennill Lle i Gymru yn y Byd**

- Cam cyntaf ac ail gam menter gyfathrebu 'Cymru yn y Byd' wedi'u cwblhau.
- Dogfen Ymgynghori Strategaeth Masnach Ryngwladol wedi'i chyhoeddi ym mis Gorffennaf 2002. Y fersiwn terfynol i ymddangos ym mis Ionawr 2003.
- Derbyniodd Masnach Cymru Rhyngwladol sicrwydd o £4m o grant Amcan 1 i helpu mentrau bach a chanolig i ddatblygu marchnadoedd rhyngwladol newydd.

- Newid pwyslais gweithgareddau rhyngwladol y WDA i ganolbwyntio ar sectorau ac ar farchnadoedd daearyddol sy'n cyfateb i gryfderau Cymru.
- Mae gwaith ar y gweill i fanteisio cymaint â phosibl ar Gwpan Ryder 2010.
- Fel rhan o raglen i sefydlu rhwydwaith o swyddfeydd i'n cynrychioli dramor, llofnodwyd y les ar gyfer Canolfan Ryngwladol Cymru yn Efrog Newydd ym Medi 2002.
- Comisiwn Sgrîn Cymru wedi'i sefydlu i gydlynu gweithgareddau ym maes Comisiynu Ffilm drwy Gymru.
- Lansiwyd ‘Busnes’, cylchgrawn cwsmer y WDA ym Medi 2002 ac fe'i ddosbarthwyd i

60,000 o fusnesau.

**Gwella Trafnidiaeth**

- Cyhoeddwyd y Rhaglen Cefnffyrdd ym Mawrth 2002.
- Cynydd o 20% mewn Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol.
- Cronfa Moderneiddio Cludiant Ffyrdd ar gael o Ebrill 2002.
- Dyfarnu Grant Cyfleusterau Cludo ar gyfer trenau metel sgrap sy'n tynnu 24,000 o filltiroedd lori y flwyddyn oddi ar y ffyrdd,

**Creu Cymunedau Cadarn**

- Cymunedau cymwys *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf* wedi'u dethol a chynigion ar gyfer prosiectau wedi'u gwahodd. Cytunwyd ar 36 cytundeb partneriaeth.
- Cyhoeddwyd pecyn cymorth Corus gwerth £76m yn hwyr yn 2001-yn gynnar yn 2002.
- Gwaith yn mynd rhagddo i gymell pobl a oedd yn arfer gweithio i Corus i ddarparu gwasanaethau arbenigol.
- Cwmni Adfywio Trefol Casnewydd i'w sefydlu ddiwedd Hydref.
- Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu safleoedd yn ardaloedd awdurdodau Blaenau Gwent, Casnewydd, Tor-faen a Chaerffili.

- Mae dros 21,000 erbyn hyn yn aelodau o Undebau Credyd.
- Mae dros 900 o wirfoddolwyr Undebau Credyd wedi'u recriwtio.
- ‘Safon Ansawdd Tai Cymru’ wedi'i chytuno yn Ebrill 2002.
- Y Rhwydwaith Economi Cymdeithasol yn datblygu fframwaith ar gyfer yr economi gymdeithasol.
- Mae Sefydliad Ariannol Datblygu Cymunedol Cymru Gyfan yn cael ei baratoi.

**Cynorthwyo'r Gymru Wledig**

- Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig ar waith.
- Mae'r Cynllun Adfer Gwledig yn dod yn ei flaen yn dda.
- Sefydlwyd Cyswllt Ffermio ym Medi 2001, a arweiniodd at nifer sylweddol o Gynlluniau Datblygu Busnesau Fferm, grantiau cyfalaf (yn enwedig Grantiau Gwella Ffermydd) a throsglwyddo technoleg gan gynnwys canolfan ddatblygu a rhaglen ffermydd arddangos.
- Ymhlith prif lwyddiannau Ffermio i'r Dyfodol mae:
- Cynigion wedi'u cyhoeddi ar gorff cig newydd ar gyfer Cymru – mae trafodaethau wedi'u cynnal ers peth amser.
- Swydd barhaol lawnamser ym Mrwsel i fynd i'r afael â materion amaethyddol a gwledig.
- Mae system Apêl Annibynnol bellach wedi'i sefydlu i glywed cwynion y ffermwyr am faterion cymhorthdal.
- Cwblhau cam cyntaf y system TG newydd i dalu ffermwyr yn gynt ac yn fwy effeithlon,

ym mis Mai 2002.
- Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â mewnforion cig anghyfreithlon ym mis Mawrth 2002.
- Cyhoeddwyd Cynllun wrth Gefn Interim Drafft ar glwy'r traed a'r genau.
- Cyhoeddwyd rhaglen interim i gyflymu'r gwaith ar atal TB mewn gwartheg.
- Mae'r argymhellion o ran cloriannu Tir Gofal wedi'u cyhoeddi ac yn cael eu datblygu.
- Lansiwyd rhaglen newydd gwerth £5 miliwn i gefnogi twristiaeth a hamdden integredig.
- Cwblhawyd yr adolygiad ar effeithiolrwydd y bartneriaeth bwyd amaeth.
- Pennwyd targedau ar gyfer 2002-2003.
- Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi cefnogi'n agos at 2000 o fusnesau drwy ei raglenni bwyd amaeth.
- Astudiaeth Cymunedau Cytbwys o ran Oedran ar ffyrdd o gynnig rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig wedi'i chomisiynu.
- Cylchlythyr misol ("Gwlad") yn mynd i bod ty fferm yng Nghymru.
- Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y cynllun cofrestru statudol ar gyfer busnesau sy'n darparu llety i dwristiaid.

**Cynllunio Gofodol**

- Dogfen ymgynghori Cynllun Gofodol Cymru wedi'i chyhoeddi ym Mawrth 2002.
- Cyhoeddwyd 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru' i ddibenion ymgynghori yn Ionawr 2002. Bydd datganiad ar y ffordd ymlaen ym mis Hydref 2002.

**Crynodeb**

12. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar bob agwedd ar gynllun gweithredu *Cymru'n Ennill*. Cyhoeddir canlyniadau'r flwyddyn gyntaf yn yr Adroddiad Blynyddol.